| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 16 Gorffennaf 2025 |
| **Pwnc** | **ER GWYBODAETH YN UNIG:** Trosolwg o'r broses Asesiad Panel Perfformiad a themâu i'r panel ystyried |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>Trawsnewid Corfforaethol |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Perfformiad, Gwella a Prosiectau<br>Trawsnewid |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.16.3) rhaid i'r Cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cael ei rannu hefo'r pwyllgor er gwybodaeth yn unig, does dim disgwyl i'r pwyllgor gynnig sylwadau.

1.2 Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o themau bydd y panel yn ei ystyried. Nid yw penderfynu ar y themau yn ran o gyfrifoldeb y Pwyllgor.

1.3 **Bydd yr Asesiad Panel Perfformiad yn digwydd yma yn ystod 10 – 13 Tachwedd 2025.** Ceir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad atodol.

1.4 Rhaid i'r cyngor baratoi ymateb i adroddiad y panel asesid perfformiad. Mae gan y pwyllgor G&A gyfrifoldeb i adolygu'r ymateb hwn. Yn ei ymateb, mae'n ofynnol i'r cyngor ddatgan:

• i ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad;

• i ba raddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad; a

• unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

1.5 Dyma'r amserlen drafft yn dilyn allbwn y panel:

| | |
|---|---|
| CSYM i dderbyn adroddiad y panel | 20 diwrnod ar ol y panel |

| | |
|---|---|
| CSYM i gyflwyno ymateb cychwynol ar yr adroddiad | 20 diwrnod aro i derbyn yr adroddiad |
| Derbyn adroddiad terfynol | Ionawr 2026 |
| Adroddiad i bwyllgor Ll&A | Ionawr / Chwefror 2026 (mor fuan a phosib ar ol derbyn yr adroddiad) |
| CSYM i ddrafftio ymateb i'r adroddiad | TBC |
| Adroddiad draft o ymateb CSYM i Bwyllgor Ll&A | TBC |
| CSYM i gytuno yr adroddiad a cyhoeddi. | O leiaf 4 mis cyn etholiadau Lleol (2027). |

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried yr adroddiad a nodi'r themâu y gofynnir i'r panel ystyried.

# Asesiad Panel Perfformiad – Materion i'r panel ystyried

Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer yr Asesiad Panel Perfformiad (PPA). Bwriad y ddogfen yma yw roi rhywfaint o wybodaeth i chi am y trefniadau ag I gytuno ar y materion i'r panel eu ystyried.

## 1. Beth yw Asesiad Panel Perfformiad?

Byddwch yn ymwybodol ein bod eisoes yn cynnal Hunanasesiad blynyddol – cytunwyd ar adroddiad diweddaraf gan y Cyngor ym mis Mehefin 2024 – gallwch ei ddarllen yma.

Mae Asesiad Panel Perfformiad (PPA)[1] yn ofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2015, a rhaid i bob cyngor wneud trefniadau ar gyfer PPA unwaith ym mhob cylch etholiad 5 mlynedd. Mae PPA yn cefnogi diwylliant lle mae cynghorau'n agored i heriau, os yw'n cael eu cynnal o fewn yr awdurdod neu, yn yr achos hwn, yn allanol.

Nid yw'r PPA yn archwiliad nac arolygiad ac ni fydd yn ceisio dyblygu unrhyw waith a wneir. Nid yw'n rhywbeth sy'n cael ei wneud 'i ni' ond 'gyda ni'. Nid yw'n ymwneud ag adolygu ein hunanasesu, ond bydd yn darparu persbectif allanol anibynnol.

Bydd y PPA yn gweithio gyda ni i asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw, i ba raddau:

- mae arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- mae'n defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- mae ganddo lywodraethu effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Mae'r CLILC wedi cyhoeddi canllawiau, gellir eu darllen yma.

## 2. Meysydd i'w hystyried

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein chwech amcan strategol o fewn Cynllun y Cyngor[2] erbyn 2028, a hynny tra'n wynebu cyfnod heriol yn ariannol ac yn gymdeithasol yn ogystal a chynydd mewn gofynion deddfwriaethol.

Rydym yn ymdrechu i gyflawni a cynnal gwasanaethau o safon gyda llai o adnoddau a chynydd yn y galw am ein gwasanaethau. Er mwyn gallu cyflawni ein amcanion mae'n hanfodol fod gennym drefniadau effeithlon mewn lle ac yn cydweithio'n agos hefo partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn unol a'r deddfwriaethau.

O ystyried yr heriau mae'r Cyngor yn wynebu, rydym yn cynnig bod y Panel yn ystyried y ddau faes canlynol:

1. **Trefniadau cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor – a yw ein trefniadau yn rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon**

[1] Corporate Governance and Performance - WLGA
[2] Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

### 2. A yw'r Cyngor yn cydweithio yn effeithiol gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor

| Meysydd i'w hystyried | Pam? |
|---|---|
| Trefniadau cyflawni – a yw ein trefniadau yn rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon. | Rydym yn ail flwyddyn y cynllun erbyn hyn a hanner ffordd drwy y drydedd flwyddyn erbyn dyddiad y panel. |
| | Ydy'r hyn da ni wedi ymrwymo i wneud erbyn 2028 yn cael ei fonitro yn effeithiol? |
| | Rydym wedi ymrwymo i gyflawni 27 o weithredoedd allweddol erbyn 2028 |
| | Archwilio Cymru[3] wedi argymell fod lle i gryfhau sut ydan ni'n mesur canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ogystal ac allbynau. |
| Cydweithio gyda cymunedau a partneriaid i gyflawni Cynllun y Cyngor | Yda ni'n gweithredu yn unol a'n gwerthoedd? |
| | Wedi ymrwymo i Gydweithio fel un o'n gwerthoedd o fewn CYC:<br>"Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Mon" |
| | Un o'n egwyddorion cyffredinol yw: Cyfathrebu<br>"Trwy sicrhau cyfathrebu effeithiol gallwn sicrhau ein bod yn rhyngweithio a meithrin perthynas gryfach ag eraill ac yn cael sgyrsiau mwy cynhyrchiol."<br><br>Ydy hyn y digwydd ag i ba raddau mae'n cyfrannu at CYC? |

### 3. Pryd fydd Asesiad Panel Perfformiad yn cael ei gynnal?

Mae'r PPA yn gymysgedd o asesiad oddi ar y safle ac ar y safle. Cynhelir asesiad ar y safle dros bedwar diwrnod, ac mae wedi'i drefnu ar gyfer **10 – 13 Tachwedd 2025**.

### 4. Pwy fydd tîm y Panel allanol?

Mae cyfansoddiad y Panel wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, a bydd y Pwyllgor Gwaith a'r Prif Weithredwr yn cael cytuno ar aelodau y panel o flaen llaw, gan weithio gyda CLlLC.

Mae CLlLC wedi penodi dau swyddog i gefnogi'r Panel – Lyndon Puddy a Joseph Lewis.

[3] Cyngor Sir Ynys Môn – Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau

### 5. Gyda phwy fyddan nhw eisiau siarad?

Bydd y tîm yn dymuno siarad ag ystod o bobl, gan gynnwys Cynghorwyr: bydd trefniadau'n cael eu gwneud iddynt gwrdd â'r Arweinydd a'r Aelodau Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion amrywiol bwyllgorau ac Arweinwyr Grŵp. Bydd cyfle hefyd i'r holl aelodau eraill fynychu grŵp ffocws gyda'r Panel. Rydym yn eich annog i wneud eich hunain ar gael, lle bynnag y bo modd, i allu cymryd rhan.

**Dim ond un sesiwn fydd angen i chi fynychu gyda'r Panel – felly os cewch eich gwahodd i fynychu cyfarfod penodol, ni fydd angen i chi fynychu'r grŵp ffocws aelodau hefyd.**

Bydd y Panel hefyd yn cwrdd â swyddogion, cynrychiolwyr rhai ymgynghorwyr statudol, gan gynnwys Undebau Llafur a chynrychiolwyr fforymau busnes, yn ogystal â chael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o rai o'n partneriaethau allweddol.

### 6. Adroddiad PPA

Yn dilyn y PPA, bydd y Panel yn darparu adroddiad i'r Cyngor, yn nodi casgliadau'r Panel ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac unrhyw gamau y mae'r Panel yn argymell y gallai'r Cyngor eu cymryd. Bydd CLILC yn defnyddio'r canlyniadau i nodi meysydd lle gallai cymorth dan arweiniad y sector fod ar gael, neu lle mae angen ei gomisiynu i gefnogi cynghorau.

### 7. Camau nesaf

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar y meysydd i'w hystyried, bydd grwp o swyddogion yn mynd ymlaen i drefnu'r canlynol:

| Gweithred | Pwy? | Pryd? |
|---|---|---|
| Cadarnhad Pwyllgor Gwaith ar y materion | TA / PG | Gorffennaf |
| Creu dogfen sgopio | Swyddogion / Grŵp PPA | Mehefin – Medi |
| Cytuno a cymeradwyo dogfen sgopio | Grwp PPA | Medi |
| Cadarnhau materion i'w ystyried gyda WLGA | Grŵp PPA | Medi |
| Rhannu dogfen sgopio gyda WLGA | Grŵp PPA | |
| PPA ar safle (4 diwrnod) | | 10.11.25 |
| Derbyn Adroddiad Terfynol y Panel | CLILC | 20 diwrnod gwaith ar ol y panel |
| Y Cyngor i ymateb i'r adroddiad | | 20 diwrnod gwaith ar ol derbyn yr adroddiad |